

Cyngor Cymuned Eglwys Bach - Cofnodion Cyfarfod 03/04/17

PRESENNOL: Cynghorwyr: Austin Roberts (Cadeirydd), John Emlyn Jones (cofnodwr), Gwilym Williams, Gwyn Williams, John Lloyd Williams, Ceri Leeder ac Arthur Williams. Aelod o'r cyhoedd hefyd yn bresennol yn ystod y cyflwyniad isod.

YMDDIHEURIADAU: Cynghorwyr: Katherine Himsworth a Gwyn Morris Jones

Croesawodd y Cadeirydd Sonya Thompson o Wasanaeth Ambiwylans Cymru. Roedd hi wedi dod i roi cyflwyniad mewn ymateb i bryderon a fynegwyd mewn cyfarfod o'r cyngor ym mis Tachwedd yn dilyn yr oedi a fu yn ymateb ambiwlans i ddigwyddiad yn y pentref. Yn ystod ei chyflwyniad rhoddodd Ms Thompson amlinelliad o'r newid yn y Gwasanaeth Ambiwylans ers mis Hydref 2016. Cynigiodd y byddai'n gallu rhoi cymorth i ailsefydlu'r Ymatebwyr Cyntaf yn y pentref pe bai galw am hynny. Hefyd pe bai unrhyw bryder yn y dyfodol gwahoddodd y Cyngor i gysylltu yn uniongyrchol â hi. Rhannodd ei chyfeiriad e-bost gyda'r aelod o'r cyhoedd oedd yn bresennol a gofynnodd iddo gysylltu gyda hi.

Diolchodd y Cadeirydd iddi am ei chyflwyniad.
Gadawodd yr aelod o'r cyhoedd y cyfarfod.

DATGAN DIDDORDEB: DIM

COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF: Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfodydd diwethaf.

MATERION YN CODI:

Pont Ffordd Bryn Hir- Nid oes arian wedi cael ei glustnodi eto ond y gobaith yw bydd y gwaith yn digwydd yn fuan.

Arwydd Canolfan Bwyd Cymru - Mae'r Cadeirydd wedi tynnu llun a'i anfon at Mr Skates o Lywodraeth Cymru.

Y Diffibrilydd - Dim byd pellach i'w adrodd.

Sŵn Cŵn yn Cyfarth- Mae'r mater yn derbyn sylw gan adran gwasanaethau rheoleiddio'r Cyngor Sir.

Parcio ar y Glaswellt ger y polyn fflag -Nododd y Cadeirydd bod Mr Elwyn Williams o'r Cyngor Sir yn edrych i mewn i hyn.

Llythyr oddi wrth Bennaeth Ysgol Eglwys Bach - Nodwyd fod y Cyngor wedi derbyn llythyr oddi wrth Mrs Nia Daly, Pennaeth yr Ysgol yn diolch yn fawr am y cyfraniad o £1,000 tuag at atgyweirio toiledau'r ysgol. Roedd y llythyr yn datgan, mai o ganlyniad i gyfraniad y Cyngor, bydd y gwaith yn gallu cychwyn yn ystod gwyliau'r Pasg.

Ceisiadau Cynllunio -

0/43805 Dymchwel sied haearn ac adeiladu llety gwyliau 11-12 gwely a llety hunanarlwyo 3 ystafell. Trafodwyd y cynlluniau am beth amser.

Penderfynwyd: Gwrthwynebu'r cais oherwydd y rhesymau a ganlyn (crynodeb):

- *Nid yw'r cabanau pîn Gogledd America yn cyd weddu gyda chymeriad yr ardal.*
- *Mae gan y cyngor bryderon parthed ymddangosiad gweledol y datblygiad.*
- *Mae'n ymddangos bod gormod wedi ei wasgu i mewn i'r safle.*
- *Pryderon parthed traffig gan fod yr A470 yn y fan hyn yn troi ac yn culhau wrth nesau at y groesffordd.*

0/43810 Tŷ Nain Estyniad-

Penderfynwyd: Dim gwrthwynebiad

Taliadau -

Sue Hayward (glanhau toiledau Mawrth) £98
J E Jones £9.99 cebl taflunydd
Emrys Davies £50 (cyfrif angladdau) gwagio trelar y fynwent.

Adroddiad Ariannol- Derbyniwyd adroddiad ariannol fel a ganlyn:

Cyfrif Cyfredol: £3824.73
Cyfrif Angladdau: £2892.20
Cyfrif Cadw: £2069.12

Amcangyfrif o Gyllid 2017-18 - Paratowyd mantolen drafft yn nodi'r amcangyfrifon ariannol ar gyfer y flwyddyn ganlynol.

Penderfynwyd: Ychwanegu - £90 ar gyfer baner newydd ac £800 ar gyfer adnewyddu'r hysbysfwrdd tu allan i Neuadd y Pentref (oherwydd pryderon iechyd a diogelwch).

Adolygu dogfennau'r Cyngor. Adolygwyd ac arwyddwyd Rheolau Sefydlog a Rheolau Ariannol y Cyngor.

Penderfynwyd: Adolygu'r Asesiad Risg yn y cyfarfod nesaf.

Penodi Archwilydd Ariannol- Cytunwyd i ofyn i Marion Pryor fod yn archwilydd ariannol mewnol y Cyngor.

Sgip Cymunedol- Cytunwyd i drefnu bod y sgip yn dod i'r pentref ar Fai 13eg.

Materion Priffyrdd- Nodwyd bod y gwaith ar Allt Croesengan rhwng Chweffordd a Thyn Twll heb ei wneud.

Ffens ger yr Ysgol - Mynegwyd pryder nad oedd dim wedi ei wneud parthed y gwaith i atgyweirio'r ffens ar lan yr afon ger yr ysgol ers 15 mis. Dywedodd y Cadeirydd ei fod wedi cael ar ddeall gan swyddog o'r Cyngor Sir bod wal yn mynd i gael ei gosod yna i ddiogelu rhag erydiad.

Penderfynwyd: Cysylltu gyda swyddogion y Cyngor Sir yn gofyn iddynt drefnu bod y gwaith brys yn cael ei wneud a bod yr ardal yn cael ei dacluso.

Mynwent - Mynegwyd pryder fod rhai sy'n gyfrifol am dorri ac wedyn ail lenwi'r beddau yn gadael twmpath o bridd ar y beddi yn hytrach na chario'r pridd sydd ddim ei angen oddi yna. Mae hyn yn achosi anhawster i'r torrwr glaswellt yn ogystal â'r ffaith fod y beddi i fod yn wastad mewn mynwent lawnt. Mynegodd y Cyng. John Lloyd Williams ei fod wedi trwsio drws y fynwent ac wedi ei baentio. Diolchodd y Cadeirydd iddo am ei waith.

Penderfynwyd: Anfon llythyr at y person sy'n gyfrifol yn tynnu sylw at y mater.

Noson Tân Gwyllt. Nodwyd nad oedd y Cyngor yn mynd i drefnu'r noson tân gwyllt eleni ond yn fodlon rhoi cyfraniad ariannol i grŵp yn y pentref oedd yn barod i wneud. Bydd angen i'r grŵp wneud cais ar gyfer arian gan yr heddlu cyn diwedd Gorffennaf.

Ymddeoliad - Hysbysodd y Cynghorydd Gwyn Williams nad oedd am roi ei enw ymlaen i gael ei ail ethol i'r Cyngor ym mis Mai.

Diolchodd y Cadeirydd iddo am ei waith a'i gyfraniad am 41 o flynyddoedd i'r gymuned gan fod yn aelod o Gyngor Gwledig Hiraethog a Chyngor Cymuned Eglwys Bach. Ategodd yr holl gynghorwyr eiriau'r cadeirydd.

Dyddiad y Cyfarfod Nesaf - I'w drefnu ar ôl dyddiad yr etholiad sef Mai 4ydd.

Daeth y cyfarfod i ben am 9:35